MOSTYN

DISGRIFIAD SWYDD
Cymrawd Dysgu ac Ymgysylltu Curadurol

Yn adrodd i'r:	Cyfarwyddwr
Yn gyfrifol am:	Cyllidebau a gytunwyd ar gyfer rhaglen beilot
Cyflog ag oriau:	£25,000 y flwyddyn (rhwng 22.5 a 37.5 awr yr wythnos)
Amseru:	Mis Ebrill 2021 i Fis Mawrth 2022
Contract:	Agored i drafodaeth - Tymor penodol PAYE neu gontract llawrydd
Lleoliad:	MOSTYN, Llandudno a gweithio o bell yn ôl yr angen gyda theithio achlysurol ar draws Gymru a'r DU

Pwrpas

Bydd y rôl yn archwilio ac yn dadansoddi arferion allgymorth ac ymgysylltu diweddar a phresennol ym MOSTYN ochr yn ochr ag archwiliad o'r natur a'r potensial o gynulleidfaoedd a chymunedau o fewn ein dalgylch. Yna bydd y Cymrawd yn dyfeisio ac yn gweithredu rhaglen ymgysylltu i ymchwilio a phrofi dulliau uchelgeisiol ac arbrofol o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac ehangu ymgysylltiad â'n cymunedau. Bydd y Cymrawd yn arwain ar gipio data a dadansoddi'r ymateb i'r rhaglen hon ac yna bydd yn cynhyrchu adroddiad yn disgrifio sut y gallai canlyniadau'r rhaglen beilot gael eu hymgorffori mewn cynlluniau parhaus ar gyfer Allgymorth a Dysgu ym MOSTYN.

Prif ddyletswyddau

Bydd y Gymrodoriaeth yn archwilio sut y gall MOSTYN:

- Cryfhau ymgysylltiad presennol â chymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddeall ac ymateb i'w blaenoriaethau ôl-bandemig.
- Cefnogi ein rhaglen arddangosfeydd celf gyfoes o bwys rhyngwladol mewn fformatau mwy amrywiol a chreadigol.
- Ehangu'r paramedrau yr ydym yn ymgysylltu â hwy ac yn adeiladu cyfres o rwydweithiau newydd gyda chynulleidfaoedd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Cysylltu'r allbynnau amrywiol o fewn y sefydliad a meithrin cydweithrediadau cefnogol newydd gyda phartneriaid allanol.
- Creu rhaglen ymgysylltu sy'n canoli gofal, iechyd a lles ein cynulleidfaoedd yn ein cyd-destunau cymdeithasol newydd.

Bydd canfyddiadau'r Gymrodoriaeth hon wedyn yn ffurfio gwaelodlin ein Strategaeth Ymgysylltu ag Ymwelwyr newydd o 2022/23 ac yn cyfrannu tuag at ein Hadolygiad Buddsoddi Cyllid ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2023.

Tasgau a chyfrifoldebau allweddol

Bydd hon yn rôl guradurol sy'n adlewyrchu ac yn ymestyn ein rhaglen o arddangosfeydd, sgyrsiau, perfformiad, comisiynau digidol y tu hwnt i waliau ein horiel ac i mewn i'n cymunedau ar-lein ac yn bersonol.

Ar y cyd â'n timau Curadurol ac Ymgysylltu, bydd y Cymrawd yn cynllunio rhaglen beilot ymgysylltu i ymchwilio a phrofi dulliau arbrofol, addasol a hybrid uchelgeisiol ar y safle, oddi ar y safle a digidol i gyrraedd cynulleidfaoedd presennol a newydd.

MOSTYN

Bydd ymchwil y Cymrawd yn archwilio sut y gall MOSTYN:

- Bod yn rhagweithiol o ran dull ac yn ymwybodol o'n dyfodol ôl-bandemig, gan gryfhau'r ymgysylltiad presennol â chymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, deall ac ymateb i'w blaenoriaethau nesaf.
- Cefnogi ein rhaglen arddangosfeydd celf gyfoes sydd â diddordeb beirniadol ac arwyddocaol yn rhyngwladol mewn fformatau mwy amrywiol a chreadigol.
- Ehangu paramedrau o ran pwy rydym yn ymgysylltu â nhw ac adeiladu cyfres o rwydweithiau newydd gyda chynulleidfaoedd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: BIPOC, LGBTQI+, cymunedau anghysbell a gwledig. Fodd bynnag, rydym yn hyblyg i ddiddordebau a phrofiad y Cymrawd a ddewiswyd o ran eu cynulleidfaoedd wedi'u targedu ac yn awyddus i gefnogi eu datblygiad proffesiynol a'u huchelgeisiau gyrfa tymor hir.
- Cysylltu allbynnau amrywiol y sefydliad gyda'i gilydd a chreu cydweithrediadau cefnogol newydd gyda'n cymunedau, artistiaid a sefydliadau eraill i gyflawni'r fath gweithgareddau.
- Cefnogi creu rhaglen ymgysylltu sy'n canoli gofal, iechyd a lles ein cynulleidfaoedd yn ein cyd-destunau cymdeithasol newydd, ond sy'n dal i'w galluogi a'u hysbrydoli i ffurfio safbwyntiau newydd ar y byd, sut bynnag maen nhw'n dewis ymgysylltu â ni.

Yn yr un modd â phob deiliad swydd, disgwylir i'r Cymrawd Dysgu a Churadurol:

- Cymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eu hunain a'u cydweithwyr, gan gynnwys cadw at brotocolau a gweithdrefnau Covid-19 MOSTYN.
- Sicrhau diogelwch yr oriel a lleoedd eraill ym MOSTYN.
- Gweithredu fel eiriolwr MOSTYN a hyrwyddo ei weledigaeth a'i weithgareddau, gan gynrychioli MOSTYN mewn digwyddiadau fel agoriadau, digwyddiadau rhwydweithio a seminarau, symposia ayyb.
- Cydweithio â'r holl adrannau eraill.
- Cyfrannu'n weithredol at godi arian a'i gefnogi a bod yn ymwybodol o achos MOSTYN dros angen.
- Sicrhau y cedwir at systemau, polisïau a phrosesau MOSTYN wrth gyflawni'r dyletswyddau.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau. Efallai y bydd angen ymgymryd â dyletswyddau rhesymol eraill i gyflawni'r rôl hon yn llwyddiannus ac i gyflawni nodau'r sefydliad.

Manyleb person amlinellol

Gwybodaeth:

- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn enwedig yn y celfyddydau gweledol cyfoes, astudiaethau diwylliannol neu astudiaethau curadurol a rheolaeth y celfyddydau.
- Gwybodaeth ac angerdd am gelf a diwylliant digidol a chreu profiadau deniadol yn bersonol, trwy'r we a thrwy ddyfeisiau symudol; dealltwriaeth o bosibiliadau creadigol y we trwy sawl platfform.
- Angerdd am ddod â materion diwylliannol a chymdeithasol yn/trwy'r celfyddydau yn fyw ac ennyn diddordeb cynulleidfa mor eang â phosibl i fuddion, sgyrsiau a chyfleoedd celf gyfoes.
- Yr elfennau allweddol ar gyfer digwyddiad llwyddiannus, ar y safle, oddi ar y safle ac ar-lein o ran cynllunio, cyllido, curadu, cyflwyno, dogfennu ac archifo.

Sgiliau:

- Yn gallu trefnu eich gwaith eich hun a gwaith eraill wrth gyflawni'r rôl hon.
- Dawn greadigol, ysbryd entrepreneuraidd ac amcanusrwydd i ddyfeisio rhaglenni gweithgareddau arloesol ond pragmatig.
- Y gallu i ddarparu profiadau ar y safle, oddi ar y safle ac ar-lein sy'n denu ac yn ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd a chyfranogwyr ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol.

- Mynegi a gallu trafod a chyflwyno materion celf gyfoes i wahanol gynulleidfaoedd, rhanddeiliaid a chyllidwyr, gan ddefnyddio geirfa ac offer gwahanol yn ôl cynulleidfaoedd a siaradwyr targed.

Profiad:

- Cynllunio, codi arian, meddwl yn strategol ac adeiladu partneriaethau.
- Trefnu a darparu gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer presenoldeb y cyhoedd.
- Darparu cyngor ac arwain ar gefnogaeth ymarferol i artistiaid a chynhyrchwyr eraill ar hawlfraint ar gyfer cynnwys ar-lein.
- Cynhyrchu adnoddau gweledol archifol effeithiol i'w defnyddio mewn orielau ac ar-lein.
- Comisiynu artistiaid, cynhyrchwyr, siaradwyr neu dechnolegwyr
- Gwerthuso llwyddiant partneriaethau strategol ac ariannu, a gweithgareddau creadigol.

Mae rhuglder, gwybodaeth neu ddiddordeb gweithredol yn y Gymraeg a'i chymunedau yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Oriau gwaith

Mae hon yn rôl sy'n gweithio rhwng 22.5 a 37.5 awr yr wythnos, a fydd yn cael eu cytuno ar ddechrau'r Gymrodoriaeth. Dosbarthir yr oriau hyn trwy gyd-drafod. Bydd gofyniad i weithio oriau anghymdeithasol wrth gyflawni'r rôl hon.

Ariennir y swydd hon gan raglen ‘Respond and Reimagine’ yr Art Fund.

Dyddiad cau a chyfweliadau

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **hanner dydd**, **dydd Sul 28 Chwefror 2021**.
Disgwylir cynnal cyfweliadau’r wythnos yn cychwyn 8 Mawrth 2021.

Cydraddoldeb

Rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gweithlu a'r holl gyfleoedd a ddarperir gan MOSTYN, ac i gael tîm sy'n cynnwys sgiliau, profiadau a galluoedd amrywiol. Felly rydym yn annog ceisiadau o bob cefndir, cymuned a diwydiant, ac yn enwedig gan bobl anabl a phobl o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan nad yw'r grwpiau hyn wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y sector diwylliannol ar hyn o bryd.

Er bod gan rai o'n swyddfeydd rwystrau rhag mynediad, rydym yn parhau i annog diddordeb gan ymgeiswyr sydd angen addasiadau rhesymol yn y gweithle. Gofynnwn i bawb sy'n gweithio gyda ni hyrwyddo'r uchelgais hon a'i hymgorffori yn eu gwaith o ddydd i ddydd a'i monitro trwy ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb blynyddol.

Sut i wneud cais :

1. Darllenwch y fanyleb Disgrifiad Swydd ac Amlinelliad person.
2. Cyflwyno CV a Llythyr Cais. Sicrhewch eich bod yn dweud wrthym sut rydych chi'n cwrdd â'r wybodaeth, sgiliau a'r profiad yn y fanyleb person.
3. Rhowch enwau, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post llawn a rhifau ffôn dau berson a all roi geirda i chi. Dylai o leiaf un o'r rhain fod yn gyflogwr presennol neu ddiweddaraf.
4. Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, os oes gennych unrhyw ofynion penodol neu os hoffech drafod unrhyw agwedd o'r rôl yn gyfrinachol, cysylltwch â MOSTYN ar

01492 879201 a chyfeirir eich galwad at Alfredo Cramerotti, Cyfarwyddwr. Fel arall, e-bostiwch: alfredoc@mostyn.org

5. E-bostiwch eich cais at Steph Leeder, Gweinyddwr Swyddfa a Chyfrifon: steph@mostyn.org
6. Ni fydd unrhyw gais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu cynnwys yn y broses recriwtio.
7. Os nad yw'r broses hon yn ddull priodol i chi oherwydd nam neu anabledd, cysylltwch â ni i wneud trefniadau amgen.

Byddwn yn cydnabod y derbyniad o bob cais.